# Cyfoeth Naturiol Cymru
## Cyfarfod o'r Bwrdd
## 9fed Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | Fframwaith menter ar gyfer asedau ac adnoddau a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Cyfeirnod y Papur:** | Papur NRW (O) 21.13 |
| **Noddwyd y Papur Gan:**<br>**Ysgrifennwyd y Papur Gan:** | Trefor Owen<br>Dave Edwell |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas y Papur:** | Adrodd ar y cynnydd hyd yma a cheisio cael barn a chefnogaeth y Bwrdd ar y fframwaith menter arfaethedig ar gyfer asedau ac adnoddau a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Argymhelliad:** | Gwahoddir y Bwrdd i ddarparu adborth a chymeradwyo'r fframwaith menter, fel bod y Bwrdd Gweithredol yn gallu paratoi rhagolwg refeniw wedi'i seilio ar flaenoriaeth yn unol ag amserlen y Cynllun Corfforaethol. |
| **Penderfyniad sydd ei Angen:** | Fel yr argymhelliad uchod. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Nodwch – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r testun<br><br>Dylech osgoi datganiadau cyffredinol ac anelu at ddarganfod unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â phwrpas y papur cyfan | **Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd y fframwaith menter arfaethedig yn ffafrio syniadau sy'n cael effaith cadarnhaol ar yr amgylchedd, a chael gwared yn gyflym â syniadau sy'n debygol o gael effaith negyddol.<br><br>**Effaith ar yr Economi**: Bydd mabwysiadu'r fframwaith menter arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i swyddi a thyfiant yng Nghymru ac yn cynhyrchu refeniw ychwanegol er mwyn i Gyfoeth Naturiol Cymru fuddsoddi yn yr amgylchedd.<br><br>**Effaith ar y Gymuned**: Bydd y fframwaith menter arfaethedig yn cefnogi syniadau sy'n cael effaith cadarnhaol ar bobl a chymunedau, ac yn cael gwared yn gyflym â syniadau sy'n debygol o gael effaith negyddol.<br><br>**Effaith ar Wybodaeth**: Mae'r fframwaith menter arfaethedig yn darparu cyfle i gynnal a datblygu sgiliau busnes ar draws y sefydliad. |

**Pwnc**

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru angen paratoi a gweithredu fframwaith menter ac adnabod cynigion wedi'u blaenoriaethu fel rhan o'r broses cynllunio corfforaethol a'r broses cynllunio busnes.

**Cefndir**

2. Mae adnabod yr angen i ddatblygu gweithgareddau sy'n bodoli eisoes a mentrau newydd wedi'i nodi fel blaenoriaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ôl Llythyr Gorchwyl Llywodraeth Cymru 2013-14 a chan lawer o'r rhanddeiliaid busnes.

3. Mae rheoli uniongyrchol o asedau ac adnoddau pwysig wedi'i seilio ar y tir, ynghyd â sgiliau craidd mewn sectorau marchnad allweddol yn darparu cyfle newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal a datblygu gweithgareddau menter dyfeisgar newydd wedi'u seilio ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy.

4. Bydd cyfleoedd menter wedi'u hystyried yn ofalus a'u gweithredu'n effeithiol yn darparu lliniariad defnyddiol i fwy o bwysau tebygol yn y dyfodol ar gyllid Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru, a gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddyheadau'r Llywodraeth ar gyfer swyddi a thwf yng Nghymru.

5. Ers 1 Ebrill 2013 rydym wedi:

- Sefydlu man cychwyn o weithgarwch mentrau presennol a refeniw cysylltiedig.
- Cynyddu ein hymrwymiad gyda chyfleoedd sy'n ymgodi ac o bosibl marchnadoedd dadleuol sy'n ymgodi, fel datblygu ynni-dŵr ar raddfa fechan, Nwy Siâl/methan o wely glo, Nwyeiddio Glo Tanddaearol ac incwm mwynau (glo a charreg).
- Cipio nifer sylweddol ac amrediad o syniadau ar gyfer gweithrediadau menter gan y Cadeirydd, Grŵp Menter y Bwrdd, Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r staff.
- Datblygu fframwaith menter a methodoleg ar gyfer addasu syniadau sy'n bodoli a syniadau newydd a blaenoriaethu'r rhai hynny i'w dilyn ymhellach ar sail refeniw posibl, isafswm derbyniol o gyfraddau derbyniadau, *vires*, cyflymder, rhwyddineb gweithredu ac yn gweddu'n amgylcheddol a chymdeithasol.

**Y Cynigion a'r camau nesaf**

6. Gwahoddir y Bwrdd i roi sylw ar y cynnydd hyd yma ac ystyried y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1 - A ydi cwmpas y fframwaith menter arfaethedig, yr agenda i'w weithredu a'r mesurau a'r ffyrdd arfaethedig o weithio wedi cael eu gosod yn eglur gyda phwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru 'er mwyn sicrhau bod adnoddau

naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu cefnogi a'u gwella yn awr ac yn y dyfodol'?

Cwestiwn 2 - A oes yna unrhyw sectorau neu weithgareddau penodol o'r farchnad y mae'r Bwrdd yn dymuno eu heithrio o'r drafodaeth?

Cwestiwn – 3 A yw'r Isafswm Cyfraddau Enillion Derbyniol (cyfraddau rhwystr) a'r cymwysterau yn rhesymol pan maen nhw'n cael eu hystyried yn erbyn awydd risg a statws Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff yn y sector cyhoeddus gydag amrediad eang o ddyletswyddau?

7. Yn amodol ar adborth a sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, gwahoddir y Bwrdd i gymeradwyo'r fframwaith menter arfaethedig ar gyfer asedau ac adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru a reolir.

**Risgiau**

8. Mae'r fframwaith menter arfaethedig yn darparu ffordd resymol, dryloyw a strwythuredig tuag at ddatblygu menter gan leihau'r risg o ddilyn gweithgareddau anaddas.

9. Mae'r fframwaith arfaethedig wedi'i gynllunio i dynnu sylw yn gyflym ac arwain rheoli risgiau enw da sy'n gysylltiedig â marchnadoedd sy'n ymgodi a marchnadoedd dadleuol, megis echdynnu nwy naturiol.

10. Y prif risg sy'n gysylltiedig efo mabwysiadu'r fframwaith arfaethedig yw'r posibilrwydd i'r sefydliad ddibynnu ar ddyheadau am refeniw ychwanegol rhy uchelgeisiol wrth gynllunio ymlaen. Mae hyn yn cael ei leihau drwy'r rhagolwg a'r fethodoleg arfaethedig, ac ymrwymiad y Bwrdd mewn ymdrin â chwestiynau cyflawni mewn perthynas â'r papur hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Nid oes yna adnoddau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig efo gweithredu'r fframwaith arfaethedig yn y lle cyntaf. Mae'n debygol y bydd angen dau sy'n cyfateb i lawn amser (£80k) yn y tymor canolig er mwyn canolbwyntio ar baratoi a marchnata, ond dylid gallu adfer y costau hyn drwy refeniw ychwanegol yn yr hirdymor.

**Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio**

12. Nid oes yna faterion statudol na chyfreithiol yn gysylltiedig efo gweithredu'r fframwaith arfaethedig. Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a'r Gwasanaethau Cyfreithiol weithio gyda Llywodraeth Cymru i ymdrin ag unrhyw faterion *vires* sy'n cyfyngu drwy ddeddfwriaeth newydd, fel y Mesur Adnoddau Naturiol/Amgylcheddol arfaethedig.

## Cyfathrebu

13. Bydd Pennaeth Menter yn datblygu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer gweithredu'r fframwaith arfaethedig, gyda chefnogaeth oddi wrth arweinydd Cyfathrebu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cenedlaethol.

## Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

14. Nid oes angen AEG ar gyfer y papur hwn.

## Mynegai'r Atodiad

Fframwaith menter – Atodiad 1